

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	<b>25 Tachwedd 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	<b>Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Emllyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Mike Jones, Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd</b>
<b>Teitl</b>	<b>Cynllun Cludiant Cynaliadwy</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. I roi diweddariad i'r Pwyllgor am ddatblygiad fersiwn ddrafft o Gynllun Cludiant Cynaliadwy y Cyngor a'r gweithgareddau gwaith cysylltiedig.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. I roi gwybodaeth ynglŷn â phwrpas y Cynllun Cludiant Cynaliadwy a'r ffrydiau gwaith amrywiol sy'n cael sylw yn y Cynllun, i alluogi'r Pwyllgor i roi sylwadau ac argymhellion i gefnogi cyflawni'r Cynllun.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys fersiwn ddrafft y Cynllun Cludiant Cynaliadwy, ac yn rhoi sylwadau ac argymhellion i gefnogi cyflawni'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn Atodiad A fel rhan o'i ystyriaethau.

## **4. Manylion yr adroddiad**

Rhagarweiniad

- 4.1 Yn 2019, pasiodd y Cyngor gynnig i ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol.
- 4.2 Yn y Cynllun Corfforaethol presennol, mae blaenoriaeth *Cysylltu Cymunedau* yn cynnwys prosiect “*Galluogi pobl i deithio i’r gwaith, addysg a gwasanaethau yn well*”. Roedd cwmpas y prosiect yn eang iawn ac yn ei gwneud hi’n anodd i adnabod ymyriadau penodol a fyddai’n gwneud gwahaniaeth, er gwaethaf ymchwil pellach a gafodd ei gynnal.
- 4.3 Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod Bwrdd Rhaglen Corfforaethol ym mis Hydref 2020 a mis Gorffennaf 2021, penderfynwyd oherwydd y problemau gyda’r prosiect uchod a’r angen i roi lleihau carbon yn ganolog yn unrhyw brosiectau sy’n gysylltiedig â chludiant y dylem ni yn hytrach ganolbwyntio ar lunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy.
- 4.4 Nid yw Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn ofyniad statudol, ond mae’n cael ei seilio ar gynlluniau tebyg y mae awdurdodau lleol eraill wedi’u llunio. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi llunio *Cynllun Symudedd Trefol Cynaliadwy*. Rydym ni wedi dewis y teitl “Cynllun Cludiant Cynaliadwy” er mwyn adlewyrchu na fydd y Cynllun yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol yn unig.

#### Pwrpas y Cynllun

- 4.5 Mae hi’n bwysig nodi bod llawer o waith pwysig wedi’i gynllunio ac eisoes yn digwydd ar draws gwahanol wasanaethau yn y Cyngor er mwyn annog mwy o ddefnydd o ddulliau teithio mwy gwyrdd. Bydd y Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn ffordd effeithiol o fanylu ar y gweithgareddau hynny mewn un lle ac felly bydd yn helpu i adnabod unrhyw fylchau posibl. Bydd hyn yn golygu nifer o fanteision:
- Mae’n galluogi i ni ddweud yn hawdd wrth ein preswylwyr, busnesu ac ymwelwyr beth ydym ni’n ei wneud fel Cyngor i annog teithio mwy gwyrdd.
  - Mae’n cynnwys y dull *Un Cyngor*, ac er bod gwasanaethau gwahanol yn cyflwyno tasgau amrywiol, fe ellir eu cydlynu a’u cyflawni’n effeithiol.
  - Gall helpu i gefnogi ceisiadau ariannu mewn meysydd penodol drwy helpu i arddangos y darlun mwy a’r dull cydgysylltiedig y mae’r Cyngor yn ei gymryd.
- 4.6 Mae hi hefyd yn bwysig nodi bod y Cynllun yn integreiddio’n naturiol gyda’r gweithgareddau amrywiol sy’n gysylltiedig â chludiant sy’n cael ei wneud fel rhan o’r rhaglen i leihau carbon corfforaethol. Mae Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd yn aelod o dîm prosiect y Cynllun Cludiant Cynaliadwy.

4.7 Mae cwmpas y Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas rhaglen lleihau carbon corfforaethol gan bod yr olaf yn canolbwyntio ar y camau y bydd angen i'r Cyngor eu cymryd i leihau ei ôl troed carbon ei hun ar draws pob maes, nid cludiant yn unig. Mae'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy hefyd yn cynnwys y camau rydym ni'n bwriadu eu cymryd wrth gyflawni ein dyletswyddau fel Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol e.e. annog ein preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i deithio mewn modd mwy cynaliadwy.

#### Strwythur Cynllun Cludiant Cynaliadwy

- 4.8 Fformat y Cynllun Cludiant Cynaliadwy yw i fod yn ddogfen hygyrch, glir a chryno y gall y cyhoedd ei darllen yn hawdd. Mae'r cynllun sydd yn Atodiad B yn cynnwys y testun drafft (Mae Atodiad B wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12a o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972). Bydd y ddogfen ei hun y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad yn llawn lliw ac yn cynnwys graffeg i'w gwneud yn ddogfen fwy apelgar a deniadol i'w darllen.
- 4.9 Mae cynnwys y Cynllun wedi cael ei lunio gan amrywiaeth o swyddogion o wasanaethau gwahanol yn y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwaith yma hefyd yn adeiladu ar lawer o'r gwaith a wnaed yn flaenorol fel rhan o brosiect "Galluogi pobl i deithio..."
- 4.10 Bydd y Cynllun yn disgrifio cyd-destun y polisi ar gyfer pam ein bod wedi llunio'r Cynllun a sut y bydd yn cyd-fynd â chyd-destun rhanbarthol a pholisi cenedlaethol. Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei pholisi cludiant newydd 'Llwybr Newydd' yn gynharach eleni. Bwriedir i'r Cynllun gyd-fynd â'r polisi hwnnw tra'n ceisio peidio colli golwg ar anghenion penodol Sir Ddinbych.
- 4.11 Yn debyg i'r Llwybr Newydd, mae gan y Cynllun weledigaeth 20 mlynedd ond mae hefyd yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau yma wedi cael eu llunio mewn i restr o gamau ar gyfer pob maes gwaith penodol.
- 4.12 Mae'r meysydd gwaith sydd wedi cael eu cynnwys yn sgôp y gwaith yn cynnwys gwefru cerbydau trydan, Teithio Llesol, gwefru tacsis, teithio ar gyfer busnes, bysiau, gwasanaethau bws hyblyg/cludiant sy'n seiliedig ar alw, cynlluniau rhannu car, clybiau car cymunedol, blaenoriaeth bws/rheoli traffig ac integreiddio rhwng dulliau o gludiant.

4.13 Cynigir bod y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2022 ar ôl cynnwys yr adborth o ymarfer ymgysylltiad cyhoeddus mis Chwefror 2022 fel y manylir ym mharagraff 8.3.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Fel y cyfeirir atynt ym Mharagraffau 4.2 a 4.3, roedd y syniad o lunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn deillio o brosiect "Galluogi pobl i deithio yn well..." sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol (o dan flaenoriaeth Cysylltu Cymunedau) a'r ffaith bod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r gost o lunio'r Cynllun ei hun yn gymharol isel a bydd yn cael ei gynnwys yng nghyllideb y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol wedi dyrannu cynnydd cyllideb yn seiliedig ar refeniw o £26,000 i gyfrannu tuag at swydd o fewn yr Adain Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am weithredu rhai o'r tasgau sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun ac am fonitro cynnydd y tasgau'n gyffredinol.

6.2 Bydd nifer o'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn dibynnu ar lawer o gyllid cyfalaf er mwyn iddynt gael eu gweithredu. Mae cyllid grant ar gael ar gyfer prosiectau o'r fath ond fe fydd angen cyfraniadau arian cyfatebol gan y Cyngor. Yr un yw'r broses pan fyddwn ni'n gwneud cais am gyllid cyfalaf tuag at brosiectau ac mae'n gofyn bod manylion pob cynllun yn cael eu cyflwyno ar ffurf achos busnes i'r Grŵp Buddsoddi Strategol er mwyn i bob cynllun gael ei drafod ar sail achos-wrth-achos.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Mae gan y Cynllun Cludiant Cynaliadwy nifer o effeithiau cadarnhaol posibl yn sgil y ffocws ar gynaliadwyedd a lleihau carbon. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith wedi'u datblygu'n well nag eraill sy'n golygu bod angen diweddarau'r Asesiad o'r Effaith ar Les wrth i'r ffrydiau gwaith yma gael eu datblygu ymhellach.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1. Daeth Blaenoriaeth Gorfforaethol Cysylltu Cymunedau a phrosiect "Galluogi pobl i deithio'n well..." yn sgil Sgwrs y Sir a gweithdai dilynol.
- 8.2. Cafodd y briff prosiect ar gyfer Cynllun Cludiant Cynaliadwy ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol ym mis Hydref 2020 a mis Gorffennaf 2021.
- 8.3. Pan fydd barn y pwyllgor Craffu wedi cael ei gynnwys yn fersiwn ddrafft y Cynllun Cludiant Cynaliadwy; byddwn yn ymgymryd ag ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd a fydd yn golygu ymgysylltu ar-lein ac wyneb i wyneb ym mis Ionawr a mis Chwefror 2022. Yna bydd yr adborth yma'n cael ei gynnwys yn fersiwn derfynol y Cynllun.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1. Fel y nodir uchod cymeradwyodd Bwrdd Cynllun Corfforaethol i ddyrannu £26,000 i helpu i ariannu'r swydd angenrheidiol, gyda'r balans yn dod o adnoddau'r gwasanaeth.
- 9.2. Byddai unrhyw gynlluniau newydd sydd angen cyllid ychwanegol gan CSDd angen mynd drwy'r broses gyllideb flynyddol. Mae angen ystyried cynlluniau cyfalaf yn unigol yn arbennig. Serch hynny, mae hi hefyd yn bwysig bod y cynlluniau'n cael eu cynnwys yn yr Ymarfer Sganio'r Gorwel o ran Cyllid a fydd yn y pendraw yn dylanwadu ar y Cynllun Cyfalaf Tymor Canolig er mwyn cynllunio o flaen llaw ar gyfer gofynion cyllid ar gyfer y dyfodol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. 10.1 Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn isel ar yr amod bod y camau sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy. Y rheswm am hyn yw bod risg y gallai methiant i gyflawni'r camau a nodwyd greu rhywfaint o niwed i enw da.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

- 11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu grymoedd Craffu mewn perthynas ag adolygu a datblygu polisiau.